**<u>Dosbarthiadau oedran cymysg a grwpiau blwyddyn ranedig - Gwybodaeth i rieni</u>**

Annwyl Rieni / Gofalwyr

Wrth i chi dderbyn gwybodaeth am ddosbarth newydd eich plentyn ar gyfer Medi 2020, rwy'n ymwybodol o brofiad, bod grwpiau blwyddyn cymysg yn codi llawer o gwestiynau a phryderon i rieni.

Isod, ceir rhestr o gwestiynau cyffredin a ofynnir yn aml:

**Beth yw dosbarth grŵp blwyddyn oed cymysg/ grwpiau blwyddyn ranedig?**

Diffinnir dosbarth oedran cymysg fel dosbarth lle mae plant yn dod o fwy nag un grŵp blwyddyn yn yr ysgol gynradd. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, bydd dosbarth oedran cymysg yn cynnwys disgyblion ar ddau gam yn unig (e.e. Cyfnod Sylfaen / Cyfnod Allweddol 2). Fodd bynnag, mae'n bosibl, yn enwedig mewn ysgolion llai, y gall dosbarth oedran cymysg gynnwys disgyblion o dri cham neu fwy (e.e. BC, CS a CA2) ac ar adegau bydd grwpiau blwyddyn yn cael eu rhannu rhwng dosbarthiadau.

Yn Ysgol Bryn y Môr mae grwpiau oedran a grwpiau cymysg yn cael eu cymysgu gan amlaf gyda'r flwyddyn uwchben / islaw e.e blwyddyn 3 a 4 neu Derbyn / blwyddyn 1.

**Pam mae dosbarthiadau oedran cymysg a grwpiau blwyddyn ranedig yn cael eu ffurfio?**

Mae dosbarthiadau oedran cymysg yn cael eu ffurfio yn y mwyafrif o ysgolion oherwydd y ffordd y cofrestrir disgybl mewn unrhyw flwyddyn benodol (h.y. - nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn ac fel ysgol gyfan). Nid yw'n anghyffredin i'r sefyllfa hon newid o flwyddyn i flwyddyn; gan fod maint y grwpiau blwyddyn yn amrywio ac wrth i garfannau o blant adael / dechrau yn yr ysgol. Felly, mae grwpiau oedran cymysg yn cael eu ffurfio yn bennaf oherwydd cyfyngiadau cyllidebol a'r swm y mae Llywodraeth Cymru yn ariannu ysgolion fesul disgybl. **Ni allwn gynnal / creu mwy** o ddosbarthiadau nag yr ydym yn cael ein hariannu ar eu cyfer.

**A fydd fy mhlentyn yn cael ei ddal yn ôl os yw ef / hi yn cael ei roi mewn dosbarth grŵp oedran cymysg neu oed ranedig?**

Na. Mae'r ffyrdd y mae dysgu ac addysgu yn cael ei drefnu mewn ysgolion cynradd yn golygu bod addysgu a gwaith wedi'i deilwra i anghenion a lefelau cyflawniad cyfredol disgyblion unigol. Mae staff Ysgol Bryn y Môr yn brofiadol iawn mewn cynllunio a darparu gwaith i gyd-fynd ag anghenion dysgu oed cymysg. Mae staff yn cynllunio ac yn gweithio mewn timau, gan feddwl a gweithio fel adran yn hytrach na dosbarth neu grŵp blwyddyn unigol. Maent yn gosod her i'r plant mwy galluog a chefnogaeth i'r rheini sydd angen mwy o help ym mha bynnag grŵp blwyddyn y maent ynddo. Gwneir llawer o waith mewn grwpiau bach sy'n cynnwys plant o wahanol flynyddoedd neu rai o lefelau cyflawniad tebyg. Ar ben hynny, mae ysgol yn cynllunio profiadau addysgol ar gyfer disgyblion ym mhob dosbarth mewn ffyrdd sy'n sicrhau dilyniant a pharhad da, pa bynnag grŵp blwyddyn neu ddosbarth y maen nhw ynddo.

**Pam mae'r sefyllfa'n wahanol yn ysgol fy mhlentyn i'r sefyllfa mewn ysgolion eraill?**

Mae gwahanol sefyllfaoedd yn digwydd ym mhob ysgol. Mae gan rai ysgolion yn Abertawe lai na 100 o ddisgyblion ac felly gellir eu trefnu yn grwpiau mewn 3 neu 4 neu 5 dosbarth. Mae gan ysgolion mwy (dros 350) 2 fynediad dosbarth (grwpiau blwyddyn pur). Fodd bynnag, hyd yn oed mewn ysgolion mwy ar ryw adeg,

ni fyddai ganddynt unrhyw ddewis ond ffurfio un neu sawl dosbarth oedran cymysg. Heb os, nid yw ffurfio dosbarthiadau oedran cymysg yn fater neu'n bryder yn unrhyw un o’r ysgolion hyn.

Mae mwyafrif llethol yr ysgolion cynradd yn Abertawe (mawr a bach) wedi ffurfio dosbarthiadau oedran cymysg, ac nid oes tystiolaeth o gwbl i awgrymu bod bod mewn dosbarth oedran cymysg yn cael unrhyw effaith niweidiol o gwbl ar addysg plant yn y dosbarth hwnnw.

**Rwy'n pryderu y gallai ffurfio dosbarth grŵp oedran cymysg neu oed rhanedig olygu bod grwp cyfeillion fy mhlentyn gael ei rannu.**

Er y gall eich plentyn fod mewn grŵp gwahanol ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf i un ei ffrind, ni anwybyddir ei anghenion cymdeithasol a lles. Rydym yn cydnabod y gallai hyn beri pryder i rai disgyblion ond i ddisgyblion eraill gallai fod yn gyfle i ailgydio mewn cyfeillgarwch a ffurfiwyd yn y gorffennol. Bydd cefnogi lles pob math o blant yn rhan o'r cyfnod trosglwyddo, y cyfnod setlo ar ddechrau'r tymor. Mae tystiloaeth yn dweud y bydd yn dda i blant brofi dosbarthiadau gyda gwahanol gyd-ddisgyblion fel y gellir ymestyn eu cylch ffrindiau y tu hwnt i'r ffiniau oedran traddodiadol. Pan ffurfir dosbarthiadau newydd, crëir cyfleoedd y tu hwnt i'r ‘ystafell ddosbarth’ i ddisgyblion gadw cysylltiad â ffrindiau sydd wedi'u rannu i ddosbarthiadau eraill (megis amser cinio, amser chwarae, gweithgareddau arbennig, tripiau, perfformiadau Ysgol a.y.y.b).

Pan fydd plant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd, mae grwpiau cyfeillgarwch newydd mewn gwahanol feysydd neu pwnc yn ran o fywyd pob dydd, mae'r sefyllfa hon yn gyffredin ac yn cael ei chroesawu gan lawer o blant. Mewn gwirionedd, mae plant sydd wedi bod mewn grwpiau blwyddyn gymysg yn defnyddio'r grwpiau cyfeillgarwch hynny i drosglwyddo'n eithriadol o dda i'r Uwchradd gan eu bod eisoes yn 'adnabod' disgyblion sy'n mynychu'r ysgol uwchradd ac mae'r disgyblion sydd eisoes yn yr ysgol uwchradd yn teimlo ymdeimlad cryfach o berthyn yn gweld eu hen ffrindiau'n cyrraedd yr ysgol.

**Beth yw'r buddion i'r trefniadau?**

Mae plant yn elwa mewn sawl ffordd o fod yn aelod o ddosbarth cymysg. Cyfle i ddod yn ‘arbenigwr’ ar gyfer y plant iau a model rôl cadarnhaol y mae’r plant iau yn aml yn anelu ato. Mae’r grwpio ‘fertigol’ hwn yn aml yn meithrin sgiliau meddwl a phroblemau, geirfa a chymwyseddau cymdeithasol. Mae disgyblion yn datblygu gwell ymdeimlad o gynefindra â'u cyd-ddisgyblion ac yn dysgu cymysgu ag ystod eang o grwpiau oedran o oedran ifanc. Yn aml mae mwy o ymdeimlad o gydweithredu a chyfleoedd i weithio gyda chylch ehangach o gyfoedion. Mewn rhai achosion, ble mae plant yn parhau i ddysgu gyda'r un athro/athrawes, mae hyn yn rhoi cyfle i'r athrawes(o) ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o anghenion a chryfderau plentyn ac felly mae mewn sefyllfa gryfach i gefnogi dysgu'r plentyn yn well. Yn ei dro mae’r plentyn yn adnabod ei athro / athrawes yn dda, yn deall y disgwyliadau sydd ganddo, a gall adeiladu ar lefel o ymddiriedaeth sy’n eu hannog i ‘roi cynnig arni’ neu roi cynnig ar rywbeth newydd.

**Os ffurfir dosbarth oedran cymysg neu grŵp blwyddyn rhanedig, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynglŷn â pha blant y dylid eu rannu i ba ddosbarth?**

Ar hyn o bryd yn Ysgol Bryn y Môr, mae grwpio plant yn seiliedig ar **oedran** (bydd rhyw hefyd yn effeithio ar gydbwysedd dosbarth a grŵp blwyddyn i.e nad yw 1 bachgen / merch ar ben eu hunain) a **maint dosbarthiadau** (nifer y disgyblion).

Mewn rhai achosion unigol, gall anghenion dysgu ychwanegol (ADY) hefyd fod yn rhan o'r broses wrth benderfynu.

Gobeithio y bydd y Cwestiynau Cyffredin hyn yn ateb rhai o'ch pryderon os yw'ch plentyn wedi'i leoli mewn grŵp blwyddyn gymysg.

Mae maint dosbarthiadau a chyllid yn gosod llawer o gyfyngiadau ym **mhob ysgol** ledled Cymru, heb braidd dim hyblygrwydd ar gyfer newid, ond os hoffech gael sgwrs bellach gydag aelod o staff, rhowch alwad i ni.

Yn ddiffuant

Elin Wakeham